Reviewing the international literature it is clear that Information Technology is the key enabler in supporting community district nursing teams. The Buurtzorg Model is underpinned by a sophisticated IT infrastructure, therefore, as part of the Cwm Taf UHB pilot we are testing an automated clinical scheduling of patient visits which is not linked to WCCIS.

Principles

- Person centred care - putting the person at the centre of holistic care, maximising opportunities for co-production and co-design of service delivery;
- Building relationships with people to make informed decisions about their own care, which promotes well-being and independence with active involvement of family, neighbours and the wider community, where appropriate;
- Everyone, including support functions, will facilitate person-centred care at the point of delivery;
- Small self-organising teams that are embedded in the enhanced multi-disciplinary team in primary care and GP aligned within a geographical location;
- Supportive management structures that enable professional autonomy.

Objectives

There are three main objectives:

1. To provide high quality person-centred care maximising independence;
2. To ensure staff enjoy their jobs and work to their full potential;
3. To ensure the effective use of all resources.

How will the Neighbourhood District Nursing Team transform care in the community?

The Neighbourhood District Nursing team will be the central and first place that patients, families and General Practitioners will go to, to access nursing care at home. This model will ensure sensitivity to the local population needs and maintain a focus on population health and well-being of a geographical/GP location (10,000 citizens) and work as part of the integrated primary care multi-disciplinary team.

The team will be supported to have an in depth understanding of the health needs of their population and the capacity to flex their resources to meet this need. As a result they will strengthen their public health role in the promotion of good health and well-being focusing on disease and injury prevention and healthy aging, and adopting the *Making Every Contact Count* approach. They will support people who have District Nursing care needs, long-term conditions, palliative and end-of-life care needs. This will be with a focus on remaining at home and ensuring that the fundamentals of care are provided in partnership. This model will support work on Anticipatory Care linked to the work on Patient Stratification and Segmentation of a practice population.

The team will work in different ways, and with different groups linking with Local Authority partners, community and voluntary organisations to promote independence and community cohesion.

As the core care team they will draw on the expertise of the enhanced primary care multi-disciplinary team, specialist nurses, and others when required. This will support the development of a strong therapeutic relationship between the Neighbourhood District Nursing Team, the patients and their family thereby reducing the numbers of staff entering a patient's home.

Conclusion

The UHB welcomes the opportunity to contribute to the inquiry into Community and District Nursing Services.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Our Ref: MP/lb [REDACTED]

26 February 2019

[REDACTED]
Policy and Public Affairs manager
Welsh NHS Confederation

Dear [REDACTED]

Re: Community and District Nursing Services

Further to your email of 7 February regarding your request for us to provide a response/comments to the Terms of Reference. Please find below ABUHB's response:

How many District nurse-led community nursing teams are there in your Health Board area?

23 Teams

Information about the make-up of these teams i.e. numbers of staff and skill mix (Registered Nurses and Healthcare Support Workers)?

Please see attached accompanying spreadsheet.

An up-to-date position on the total number of nursing vacancies (registered nurses) within your Health Board.

14.9 wte vacancies District Nursing
330 wte – Health Board total

[REDACTED]

[REDACTED]



NHS
WALES
GIG
CYMRU

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board is the operational name of Aneurin Bevan University Local Health Board

		2013/2014				2019			
		Total budgeted WTE	Budgeted WTE for RGN	Budgeted WTE for HCSW	Skill mix	Total budgeted WTE	Budgeted WTE for RGN	Budgeted WTE for HCSW	Skill mix
Blaenau Gwent	BG East	N/a	N/a	N/a	N/a	23.27	20.67	2.60	89:11
	BG West	N/a	N/a	N/a	N/a	22.21	19.80	2.41	89:11
	Cwm	12.21	11.33	0.88	93:7	N/a	N/a	N/a	N/a
	Tredegar	9.27	8.40	0.87	91:9	N/a	N/a	N/a	N/a
	Abertillery	12.87	11.20	1.67	87:13	N/a	N/a	N/a	N/a
	Brynmawr	11.26	10.26	1.00	91:9	N/a	N/a	N/a	N/a
Torfaen	North 1	10.54	8.40	2.14	80:20	10.39	8.60	1.79	83:17
	North 2	9.51	8.03	1.48	84:16	14.41	11.93	2.48	83:17
	South 1	10.53	8.73	1.80	83:17	12.40	10.00	2.40	81:19
	South 2	10.13	8.13	2.00	80:20	12.44	10.07	2.37	81:19
	Central	8.60	6.80	1.80	79:21	N/a	N/a	N/a	N/a
Monmouthshire	Abergavenny	9.63	9.23	0.40	96:4	11.09	10.29	0.80	93:7
	Caldicot	10.30	9.70	0.60	94:6	8.99	8.00	0.99	89:11
	Monmouth	N/A	N/A	N/A	N/A	12.15	10.78	1.37	89:11
	Chepstow	8.96	7.56	1.40	84:16	8.99	7.87	1.12	88:12
	Usk/Raglan	8.37	8.37	0.00	100:0	5.50	4.70	0.80	85:15
Newport	Central East	12.52	11.52	1.00	92:8	14.24	13.24	1.00	93:7
	Central West	9.87	8.58	1.29	87:13	12.36	10.00	2.36	81:19
	North West	9.80	9.11	0.69	93:7	16.78	15.26	1.52	91:9
	North East	8.50	7.37	1.13	87:13	N/a	N/a	N/a	N/a

	South East	9.73	8.40	1.33	86:14	10.40	9.80	0.60	94:6
	South West	15.35	14.15	1.20	92:8	16.36	14.92	1.44	91:9
Caerphilly	Risca	11.51	10.45	1.06	91:9	11.85	10.31	1.54	87:13
	Denscombe	15.00	13.00	2.00	87:13	14.87	13.37	1.50	90:10
	Pontllanfraith	13.64	11.64	2.00	85:15	13.37	11.24	2.13	84:16
	Bargoed	13.40	12.40	1.00	93:7	11.90	10.40	1.50	87:13
	Rhymney	9.51	8.00	1.51	84:16	9.81	8.40	1.41	86:14
	Ty Bryn	8.60	7.00	1.60	81:19	10.62	8.95	1.67	84:16
	Ystrad Mynach	11.40	10.40	1.00	91:9	11.80	10.80	1.00	92:8
	Gwent Total	281.01	248.16	32.85	88:12	296.20	259.40	36.80	88:12

Tudalen y pecyn 42

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i Nyrsio Cymunedol a Nyrsio Ardal.

Dyddiad: 21 Mawrth 2019

Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Dyfodol Nyrsio Cymunedol a Nyrsio Ardal

Diben: Darparu gwybodaeth ategol mewn perthynas â'r ymchwiliad i nyrsio cymunedol a nyrsio ardal a chynllunio ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Cyflwyniad

Er mwyn gwireddu'r dyheadau strategol a nodir yn '*Cymru Iachach*' – sy'n rhoi pwyslais ar wella'r modd yr ydym yn atal clefydau ac yn ymyrryd yn gynnar, gyda newid i ddarparu gwasanaethau yn nes at adref – mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i harneisio arbenigedd yr holl weithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n gweithio mewn cymunedau. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar nyrsys cymunedol a nyrsys ardal. Er hynny nodir y bydd llwyddiant i ddarparu gwasanaethau gwell ar gyfer poblogaeth Cymru yn unol â'n dull yn y *Model Gofal Sylfaenol i Gymru* yn galw am ddull mwy integredig gan wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, gyda gwaith gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn cael ei gydlynu o amgylch olion traed clystyrau gofal sylfaenol ac yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn.

Mae nyrsys yn cyflawni amrywiaeth eang o rolau yn y gymuned, a'u craidd yw'r gwasanaethau gofal corfforol a ddarperir gan dimau a arweinir gan nyrsys ardal. Mae'r amrywiaeth o rolau nyrsio cymunedol yn cynnwys: gwasanaethau nyrsio plant arbenigol, rheoli cyflyrau cronig, timau ymyrryd mewn argyfwng, gwasanaethau nyrsio seiciatrig cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol a rolau nyrsio mewn meddygfeydd teulu. Ceir cyfle i nyrsys ddatblygu sgiliau gwell ac ymarfer uwch sy'n gynyddol yn golygu eu bod yn rheoli gofal am gleifion yn y gymuned. Mae eu rolau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar Egwyddorion Iechyd a Gofal Darbodus a'r Nod Pedwarplyg.

Ceir enghreifftiau niferus o arferion arloesol o ran cynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol a chael gofal gartref. Cafodd Enillydd Gwobr Nyrs y Flwyddyn (Cymru) y Coleg Nyrsio Brenhinol 2017, Louise Walby – hwylusydd nyrsio anadlol cymunedol ar gyfer rheoli clefydau rhwystrol cronig y llwybr anadlu yng nghymoedd De Cymru – gydnabyddiaeth am wella'n sylweddol y modd y caiff y clefyd ei ddiagnosisio yn gynnar a'i reoli yn y gymuned. Cafodd enillydd y wobr yn 2018, Eve Lightfoot, nyrs gymunedol rheoli heintiau, gydnabyddiaeth am ei gwaith ar sepsis yn y gymuned sy'n galluogi nyrsys ardal i adnabod dirywiad aciwt mewn cleifion a dechrau triniaeth yn gynnar.

(Er eglurder, mae diffiniadau o rai termau allweddol a ddefnyddir drwy'r papur hwn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.)

1. A oes gennym ddarlun clir o'r gweithlu nyrsio ardal a nyrsio cymunedol yng Nghymru, ac o faint yr angen sydd am wasanaethau nyrsio cymunedol (gan gynnwys yr angen a fydd yn y dyfodol). A oes gennym y sail dystiolaeth i ganiatáu i ni gynllunio'r gweithlu'n effeithiol?

Ystadegau'r gweithlu

Mae'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf i gael eu cyhoeddi yn dangos bod 827 o nyrsys ardal cyfwerth ag amser llawn (y rhai â chymhwyster cofnodadwy) yn gweithio mewn byrddau iechyd yng Nghymru yn 2017. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai materion o ran ansawdd yr wybodaeth hon, gan nad yw codau galwedigaethol o fewn y cofnod staff electronig yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr holl fyrddau iechyd. Mae nifer o fyrddau iechyd wedi bod yn gweithio i wella ansawdd data i sicrhau bai dim ond y nyrsys hynny â'r cymhwyster perthnasol y mae'n eu cynnwys. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi codi hyn gyda Phrif Weithredwyr byrddau iechyd gyda cham gweithredu i wella cywirdeb yr wybodaeth am nyrsio ardal yn unol â llawlyfr codio galwedigaethau'r GIG.

Cyfarfu swyddogion (yng Ngwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Nyrsio a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) â'r Coleg Nyrsio Brenhinol i drafod cynnydd o ran ansawdd data yn y maes hwn. I gefnogi tryloywder o ran ansawdd data, bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chyhoeddi eleni fel rhan o ystadegau staffio blynyddol y GIG a fydd yn dangos faint o'r nyrsys cymunedol sydd â Chymhwyster Ymarfer Arbenigol (SPQ) a gymeradwywyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rydym yn ymwybodol y bydd AaGIC yn darparu tystiolaeth fwy manwl ar ystadegau'r gweithlu cymunedol ar gyfer y pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Egwyddorion Staffio Gwasanaethau Nyrsys Ardal y Prif Swyddog Nyrsio

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Prif Swyddog Nyrsio Cymru set o egwyddorion staffio interim i roi arweiniad i fyrddau iechyd ynghylch trefnu eu gwasanaethau nyrsys ardal a sicrhau eu bod wedi'u halinio â chlystyrau gofal sylfaenol. Cyn hyn, ni fu unrhyw arweiniad o ran pa ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio gwasanaethau nyrsio cymunedol a arweinir gan nyrsys ardal, sydd wedi arwain at amrywiad o ran y dull. Nod yr egwyddorion yn y pen draw yw lleihau'r amrywiad hwnnw a pharatoi'r lleoliadau nyrsys ardal yng Nghymru ar gyfer ehangu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn y pen draw. Hefyd, mae'r egwyddorion hyn yn rhoi cymorth i gynllunio gwasanaethau'n fanwl ar lefel byrddau iechyd, gan felly oleuo'r broses o roi'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru ar waith.

Fel rhan o'u hadroddiadau chwemisol ar gydymffurfio â'r egwyddorion hyn ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae'r byrddau iechyd yn cyflwyno data ar nifer y staff a gyllidir ac sydd yn eu swydd, a niferoedd y swyddi gwag o fewn y lleoliadau nyrsys ardal. Er ei bod yn hunangofnodedig, mae'r wybodaeth hon wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr i ni am dirwedd y gweithlu nyrsys ardal mewn lefel o fanylder nad ydym yn meddu arni ar gyfer lleoliadau nyrsys eraill. Gan bod y data hwn yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol gan y timau clwstwr, nid yw'r materion o ran codio galwedigaethau sy'n effeithio ar ddata Stats Cymru fel a grybwyllwyd uchod yn effeithio arnynt. Mae'r data ynghylch sefydliadau staff a swyddi gwag nyrsys yn goleuo'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ac yn helpu i bennu comisiynau addysg yn y dyfodol. Felly er y bydd rhai materion gyda'r set ddata genedlaethol mae digon o wybodaeth i alluogi gwaith cadarn o ran cynllunio'r gweithlu i ddigwydd mewn perthynas â'r gwasanaethau craidd a arweinir gan nyrsys ardal.

Mae'r trydydd datganiad gan fyrddau iechyd i fod i gael ei gyflwyno fis Mawrth yma, gan ychwanegu gwybodaeth werthfawr bellach at y gronfa ddata sy'n tyfu, gan roi golwg glir i ni ar y gweithlu nyrsys ardal i oleuo ein gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ehangu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Ym mis Chwefror 2016, pasiodd y Cynulliad Cymru Fil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), gan olygu mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn Ewrop i ddeddfu ar lefelau staff nyrsio. Daeth y Ddeddf i rym yn llawn ym mis Ebrill 2018, gan osod dyletswydd ar fyrddau iechyd i gyfrifo lefelau staffio priodol – mewn wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt oedolion – gan ddefnyddio dull penodedig sy'n seiliedig ar driongli a chymryd pob cam rhesymol i gynnal y lefelau hynny.

Mae'r Llywodraeth yn dal i fod yn ymrwymedig i ehangu'r Ddeddf i leoliadau ychwanegol erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Mae un o'r ffrydiau gwaith i ddatblygu'r offer angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl ehangu'r Ddeddf yn y lleoliad nyrsys ardal, ac ym mis Rhagfyr 2018 cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyllido arweinydd prosiect arbenigol i gyflymu'r gwaith hwnnw. Dros y ddwy flynedd nesaf bydd y ffrwd waith honno'n datblygu'r offeryn seiliedig-ar-dystiolaeth i gynllunio'r gweithlu sy'n angenrheidiol i ehangu'r ddeddfwriaeth a chyflawni'r cyfrifiad sy'n seiliedig ar driongli, a bydd hefyd yn sail i gynllunio'r gweithlu nyrsys ardal yng Nghymru yn y tymor hir.

Sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae ehangu'r Ddeddf yn debygol o olygu bod angen nyrsys ardal ychwanegol, ac rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn cydgysylltu'n gwaith strategol ar lefel genedlaethol i gynhyrchu cyflenwad cynaliadwy o staff nyrsio ar gyfer y dyfodol, gan ddenu nyrsys i weithio yng Nghymru a cheisio ffyrdd o gadw'r staff nyrsio sydd gennym yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym mewn sefyllfa well nag erioed i gyflawni hyn a ninnau wedi sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ym mis Hydref 2018. Trwy uno Deoniaeth Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygu'r Gweithlu (GADG) GIG Cymru, a Chanolfan Cymru ar gyfer Addysg Broffesiynol Fferylliaeth (CCABFf), Mae AaGIC yn sicrhau bod pobl a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol Cymru yn cael budd o ddull cydlynus, cyson o ddarparu addysg a hyfforddiant, ac o foderneiddio a chynllunio'r gweithlu. Un o amcanion allweddol AaGIC yw defnyddio dull mwy strategol o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol ac o alinio'r cydrannau y mae eu hangen i'w gyflawni, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos gydag AaGIG i gyflawni hyn. Mae'r sefydliad eisoes wedi cael ei gynnwys gan Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i sicrhau bod goblygiadau'r Ddeddf yn cael eu cynnwys yn eu gwaith cynllunio.

Ar ben hyn, rydym yn parhau i gynyddu lefel y buddsoddiad yng ngweithlu GIG Cymru yn y dyfodol. Ar 29 Tachwedd 2018, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd £114m yn cael ei fuddsoddi yn 2019/20, sy'n gynydd o £7m yn y cyllid sydd ar gael yn 2018/19 i gefnogi ystod o raglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru. Ers 2014, mae lleoedd hyfforddiant nyrsio wedi cynyddu 68%, ac yn benodol ym maes nyrsys ardal maent wedi cynyddu 233%. Rydym yn ymwybodol y bydd AaGIC yn darparu tystiolaeth fanylach ar hyn ar gyfer y pyllgor fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Datblygu'r gweithlu

Ceir tystiolaeth bod asesu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth a chynllunio gwasanaethau a'r gweithlu sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny yn fwyaf

effeithiol pan gânt eu gwneud ar lefel leol iawn o 25,000 i 100,000 o bobl. Dyma pam ein bod wedi sefydlu 64 o glystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru fel mecanweithiau ar gyfer cynllunio amlasiantaeth, amlbroffesiwn, gan wneud defnydd effeithiol o wybodaeth leol am anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae gan nyrsys cymunedol rôl hollbwysig o ran deall anghenion ac amgylchiadau lleol a chyfranogi'n weithredol yn y broses o gynllunio gwasanaethau a'r gweithlu ar lefel clystyrau. Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru'n seiliedig ar weithio'n effeithiol mewn clystyrau.

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnwys ffrwd waith ar gyfer y gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'r ffrwd waith hon yn datblygu offeryn cenedlaethol i glystyrau ei ddefnyddio i gynllunio'r gweithlu y mae ei angen arnynt, gan gynnwys nyrsys cymunedol, i ddiwallu anghenion asesedig poblogaeth eu clwstwr.

Y Compact gyda Phlaid Cymru

Fel rhan o drafodaethau'r gyllideb yn 2017 gyda Phlaid Cymru, dyrannwyd £4m dros 2018/19 a 2019/20 - £1.2m i gyllido cynllun peilot ar gyfer Model Nyrsys Ardal seiliedig ar Gymdogaethau yng Nghymru (rhagor o fanylion isod), a £2.8m i hyfforddi 80 o nyrsys ardal yn ychwanegol. Gwyddom o wybodaeth a ddelir gan AaGIC fod nifer o nyrsys sy'n gweithio yn y GIG sydd â nifer fach o fodiwlau nad ydynt wedi'u cwblhau eto er mwyn iddynt ennill eu Cymhwyster SPQ yn llwyddiannus a dod yn Nyrsys Ardal cymwysedig. Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai buddsoddi yn y llwybr cymhwyster hwn yn galluogi nifer fwy o nyrsys ardal i fod ar gael i'r system gofal iechyd yng Nghymru yn gynharach nag a fyddai'n bosibl fel arall. Fel y corff comisiynu yng Nghymru, AaGIC sy'n arwain y gwaith hwn.

2. A oes strategaeth glir, yn genedlaethol ac yn lleol, i bennu trywydd y gwasanaethau nyrsio cymunedol dan arweiniad nyrsys bro. I ba raddau y mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu gofal sylfaenol ar sail model y clwstwr er enghraifft, ac yn cyd-fynd hefyd â'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal a nodir yn Cymru lachach.

Mae 'Cymru lachach' yn nodi gweledigaeth eglur ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan bwysleisio atal ac ymyrryd yn gynnar a newid i ddarparu gwasanaethau yn agos at ble y mae pobl yn byw. Mae'r ffocws hwn ar roi gofal cymunedol mwy lleol a chynorthwyo pobl i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain yn adeiladu ar y polisïau a'r dulliau blaenorol i ddatblygu gofal a chymorth di-dor, ataliol yn, neu yn agos at, y cartref.

Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn disgrifio'r angen i weithio gyda'r boblogaeth i roi gwybodaeth a chymorth i bobl fel eu bod yn deall sut i gadw'n iach, gan ragweld anghenion iechyd pobl a'u cyfeirio at y ffynhonnell fwyaf priodol ar gyfer gofal a chymorth. Mae dyluniad gwasanaethau yn addas i gefnogi'r 64 o glystyrau gofal sylfaenol ac i greu darpariaeth ar sail anghenion poblogaethau lleol bychain. Mae'r model hwn wrthi'n cael ei fabwysiadu a'i addasu ar lefel leol gydag enghreifftiau amrywiol o ffyrdd newydd o weithio. Mae'r Gronfa Gofal Sylfaenol genedlaethol wedi buddsoddi yng nghapasiti a galluedd y gweithlu lleol amlbroffesiwn, gan gynnwys rolau nyrsys cymunedol i gefnogi pobl â chyflyrau cronig. Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cefnogi modelau gwasanaethau lleol sydd wedi'u bwriadu i atal pobl rhag cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty ac i ddod â hwy adref o'r ysbyty pan ydynt yn ddigon iach.

Fel a nodwyd yn flaenorol yn y papur tystiolaeth hwn datblygiad timau cymunedol lleol sy'n allweddol i greu'r newid mewn canlyniadau yr ydym yn dymuno'i weld. Gan mai nyrsys cymunedol a nyrsys ardal yw'r rhan fwyaf o'r gweithlu, mae'n anorod y bydd ganddynt rôl hanfodol yn y gwaith hwn i drawsnewid y dull gyda disgwyliad y byddant yn gwella'u sgiliau ac yn ysgwyddo mwy o rôl arweiniol wrth roi gofal. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn profi sut y gellir gwella datblygiad arweinwyr timau nyrsys ardal â sgiliau ychwanegol mewn diagnosis a rhagnodi. Mae dau arweinydd tîm nyrsys ardal â'r sgiliau hyn yn cefnogi practis meddyg teulu a reolir, yn gweld cleifion ac yn rhoi gofal dilynol i'r cleifion hyn ac yn defnyddio'r sgiliau hyn yn eu rôl fel arweinwyr tîm.

Mae'r Gronfa Trawsnewid a sefydlwyd yn ddiweddar yn amlygu'r ymrwymadau strategol hynny. Nod y buddsoddiad pwysig hwn mewn gofal cymunedol yw cyflymu'r broses o fabwysiadu modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd a'u tyfu yn unol â'r anghenion a hynny wedi'i alinio'n uniongyrchol â'r nodau yr ydym wedi'u nodi yn *Cymru Iachach* ac yn gyson â'n dull yn y Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Bydd y Gronfa yn darparu hyd at £100m o gyllid dros y ddwy flynedd ariannol 2018-19 a 2019-20. O'r cynigion am brosiectau sy'n werth £32m sydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yma, ceir ffocws trosfwaol clir ar roi gofal yn y gymuned trwy dimau amlddisgyblaeth gwirioneddol integredig lle bydd gan nyrsys cymunedol rôl hanfodol.

Mae egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio a grybwyllwyd eisoes yn y papur hwn yn disgrifio dull eglur unwaith-i-Gymru o ran sut y dylid trefnu timau nyrsio ardal. Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu o adolygiad helaeth o lenyddiaeth ysgrifenedig ac ymarfer i archwilio modelau sydd ar gael mewn gwledydd eraill. Mae tystiolaeth yn dynodi bod gofal a chanlyniadau cleifion yn cael eu gwella gan dimau llai (o ryw 15 aelod o staff sy'n cynnwys 11 o staff Cyfwerth ag Amser Llawn, yn canolbwyntio ar gymdogaeth o ryw 5000 o bobl) sy'n sicrhau bod y strwythurau staffio, arwain ac addysg yn hybu parhad o ran y gofal ac yn grymuso staff. Mae'r egwyddorion canlyniadol yng Nghymru bellach yn cynnwys: y dylai timau nyrsys ardal fod wedi'u halinio â ffiniau clystyrau gofal sylfaenol; y dylai timau fod â nyrs ardal arweiniol a dirprwy nyrs ardal arweiniol sy'n meddu ar y Cymhwyster Ymarfer Arbenigol addas; y dylai'r cymysgedd sgiliau mewn timau fod yn Nyrsys Cofrestredig yn bennaf; y dylid cynnwys codiad o 26.9% yn sefydliadau'r timau i ddarparu ar gyfer pethau megis gwyliau blynyddol a hyfforddiant gorfodol blynyddol; ac y dylai pob tîm fod â mynediad at o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos.

Yn y ddau ddatganiad data ers iddynt gael eu cyhoeddi, rydym eisoes wedi gweld cynnydd o ran cydymffurfio â'r egwyddorion. Mae'r gyfradd cydymffurfio ar draws y system eisoes yn uchel iawn gyda chyfradd cydymffurfio o 75% ar gyfer saith o'r naw egwyddor a brofwyd. Rydym yn disgwyl i'r trydydd datganiad data y mis nesaf ddangos cynnydd pellach o ran cydymffurfio, gan ddynodi'r cyfeiriad cenedlaethol clir a roddwyd i'n timau nyrsys ardal.

Cynlluniau Peilot y Model Nyrsys Ardal seiliedig ar Gymdogaethau yng Nghymru
Fel rhan o drafodaethau cyllideb 2017 gyda Phlaid Cymru, dyrannwyd £1.2m dros y blynyddoedd 2018/10 – 2019/20 i gyllido cynllun peilot ar gyfer Model Nyrsys Ardal seiliedig ar Gymdogaethau yng Nghymru sy'n seiliedig ar fodel Buurtzorg o'r Iseldiroedd. Mae'r cynllun peilot yn cael ei gynnal mewn tri lleoliad: lleoliad trefol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), lleoliad gwledig ym Mhowys; a lleoliad yn y Cymoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (BIPCT). Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynlluniau peilot wedi cael ei arwain yn fwriadol gan y Nodau Pedwarplyg, egwyddorion gofal iechyd darbodus a'r 10 egwyddor dylunio yn *Cymru Iachach*.

Mae egwyddorion staffio'r Prif Swyddog Nyrsio interim eisoes yn llywio timau nyrsys ardal tuag at ymarfer sy'n gydnaws â'r model Buurtzorg; fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i roi ffocws holistaidd, sy'n canolbwyntio ar bobl i dimau nyrsys ardal, sy'n hybu hunangymorth ac annibyniaeth, gofal yn nes at adref a symudiad i ffwrdd oddi wrth wasanaeth sy'n seiliedig ar dasgau. Bydd hefyd yn hollbwysig bod y model yn cael ei addasu a'i ddatblygu'n benodol ar gyfer y system yng Nghymru, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y gall y model Buurtzorg gael ei gymhwyso i'n GIG yn ei gyfanrwydd.

Erbyn y gwanwyn 2020, byddem yn disgwyl gwerthusiad o'r timau prototeip o fewn y cynlluniau peilot i ddangos sut y gellir darparu nyrsio ardal gymdogaeth ledled Cymru.

3. I ba raddau y gall timau nyrsio cymunedol weithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau (gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, gwasanaethau gofal cymdeithasol, a'r sector gwirfoddol) i ddarparu gofal di-dor, sy'n canolbwyntio ar y person.

Gyda chyfeiriad strategol clir o ran atal derbyniadau i ysbytai, atal dirywiad a rhoi cymaint o ofal gartref â phosibl, rydym yn ymwybodol mai'r modd i gyrraedd y nodau hynny fydd timau cymunedol amlddisgyblaeth, di-dor sy'n rhyngweithio'n esmwyth â'r adrannau amrywiol yn y gwasanaeth iechyd a gofal.

Rhannu data mewn modd integredig

Y gallu i rannu data cleifion yn ddiogel rhwng gwahanol dimau sy'n rhan o'r drefn fydd yr un ffactor mwyaf hanfodol i roi gofal amlddisgyblaeth sy'n wirioneddol integredig. Cydnabuwyd hyn yn Cymru Iachach, sy'n cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflymu'r broses o gyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ledled y wlad.

Mae WCCIS wedi cael ei datblygu fel un system a chofnod gofal electronig cyffredin i'w gwneud yn bosibl i ystod o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol gael mynediad cyflymach a rhwyddach at wybodaeth berthnasol am gleifion, ac i ddangos yn glir beth yw sefyllfa gyfredol y claf ar ei lwybr triniaeth a beth oedd ei bwynt cyswllt diwethaf â'r gwasanaeth. Gydag WCCIS, bydd staff rheng-flaen o fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac iechyd cymunedol oll yn gallu cael mynediad at wybodaeth a'i chofnodi gan ddefnyddio dyfeisiau symudol megis llechi a ffonau clyfar.

Mae'r system yn fyw mewn 13 o sefydliadau ar hyn o bryd, sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a 12 o awdurdodau lleol. Mae gorchmynion rhoi ar waith yn eu lle ar gyfer BIP Betsi Cadwaladr a BIP Aneurin Bevan. Er mai penderfyniad i sefydliadau unigol yw rhoi'r system ar waith yn lleol, mae *Cymru Iachach* yn nodi cam gweithredu penodol i gyflymu'r broses o gyflwyno WCCIS ledled Cymru.

Lle mae WCCIS wedi cael ei rhoi ar waith, hysbyswyd fod manteision i'w cael ar unwaith. Mae ymarferwyr rheng-flaen yn arbennig wedi bod yn gadarnhaol ynglŷn â pha mor rwydd yw'r system i'w defnyddio, cymaint yn well yw hygyrchedd gwybodaeth a'r gallu i archwilio mynediad at gofnodion. Mae amser teithio staff wedi cael ei leihau hefyd, gan olygu bod mwy o amser yn cael ei dreulio gyda chleientiaid a chleifion yn y gymuned. Mae cam nesaf y broses o roi'r system ar waith wedi'i fwriadu i sicrhau: bod y system yn ateb y gofynion swyddogaethol, gan gyflymu cyfradd derbyn y datrysiad ymhlith byrddau iechyd; bod rhyngwynebau cenedlaethol

yn cael eu datblygu i gefnogi cofnod iechyd a gofal cymdeithasol cwbl integredig; a bod iaith system gyffredin yn cael ei datblygu i roi cymorth i rannu gwybodaeth yn ddiogel a'i gwneud yn bosibl adrodd yn ystyrlon ar y modd y darperir gwasanaethau.

Profion a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar fodelau newydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol i gyllido datblygiad a phrofion ar ffyrdd newydd o weithio yn y gwasanaeth iechyd a gofal, gyda llawr o brosiectau patrymol yn canolbwyntio ar ofalu am bobl mor agos at adref â phosibl.

Mae'r Gronfa Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg (CETD) yn cefnogi prosiectau peilot arloesol sy'n adnabod aneffeithlonrwydd mewn ymarfer ac yn mynd i'r afael â hwy â datrysiadau technolegol i wella canlyniadau i gleifion. Mae'r prosiect Addysg Ar Lawr Gwlad, sy'n canolbwyntio ar drin lymffoedema cronig (sy'n gyfrifol am gyfran fawr o lwyth gwaith nyrs ardal) yn defnyddio ffonau clyfar a llechi hollbresennol cleifion i ledaenu presgripsiynau fideo ar destunau sy'n cynnwys mesurau ataliol a hunanreoli, gofal am y croen a chlwyfau a sut i ddefnyddio dillad cywasgu'n gywir. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys darparu "Addysg Ar Lawr Gwlad" trwy fideogynadledau Microsoft, gan olygu bod cleifion lymffoedema cronig yn gallu cael sgysiau ymgynghorol ynglŷn â'u gofal yn eu cartrefi eu hunain. Dangosodd gwerthusiad o'r prosiect fod y ffordd newydd hon o weithio'n lleihau nifer yr ymweliadau gan nyrsys cymunedol gan ganiatáu amser yn ôl i roi gofal. Fe wnaeth cysylltiadau â meddygon teulu, derbyniadau i ysbytai, episodau llid yr isgroen a chostau rhwymau oll ostwng hefyd.

Fe wnaeth y Gronfa Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg a'i rhagflaenydd – y Gronfa Technoleg Iechyd a Theleiechyd (GTIaTh) fuddsoddi £470,000 yng Nghwm Taf a £2m yn PIBM i gyflwyno dyfeisiau symudol i nyrsys cymunedol. Mae'r ardaloedd hyn wedi dangos sut y bydd technoleg symudol yn ganolog i waith nyrsys ardal yn y dyfodol, gan ei gwneud yn bosibl iddynt gael mynediad cyflym ac effeithlon at systemau clinigol, cofnodion cleifion, a mewnbynnu data gweinyddol neu ganlyniadau profion cleifion. Mae'r enillion o ran effeithlonrwydd yn cynyddu i'r eithaf yr amser y mae nyrsys ardal yn gallu ei dreulio yn rhoi gofal yn hytrach na theithio, neu gwblhau gwaith papur.

Sefydlwyd y Gronfa Gofal Integredig yn 2014-15 i gynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, atal oedi cyn cael eu rhyddhau, ac i hybu gwaith mewn partneriaeth a darpariaeth gwasanaethau integredig ar draws gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau tai a'r trydydd sector. Mae'r gronfa'n dal i fod yn rhaglen ar gyfer ymrwymiad gan y Llywodraeth, gyda £60m wedi'i neilltuo yn 2018/19 ac £89m arall wedi'i neilltuo ar gyfer 2019/20. Mae'r arian hwn yn cyllido ystod o gynlluniau a gweithgareddau cymunedol ar draws ardaloedd yr holl fyrdau iechyd. Er enghraifft, mae bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf wedi dyrannu dros £1.2 miliwn o arian y Gronfa Gofal Integredig yn 2018-19 i barhau i ddatblygu eu gwasanaeth Stay Well@Home sydd wedi ennill gwobrau. Mae'r gwasanaeth, sy'n weithredol saith niwrnod yr wythnos, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn, yn cynnwys tîm amlddisgyblaeth sydd wedi'i leoli yn ysbytai aciwt y Tywysog Siarl a Brenhinol Morgannwg. Mae'r tîm yn cynnal asesiadau cychwynnol ac yn comisiynu/darparu cymorth iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth cymunedol y trydydd sector i hwyluso dychweliad diogel ac amserol adref ac atal derbyniadau diangen. Mae adborth gan ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau'n cadarnhau bod y gwasanaeth Stay Well@Home yn cael derbyniad da ac yn arwain at ganlyniad cadarnhaol ar gyfer cleifion.

Gofal diwedd oes

Mae gan Nyrsys Ardal rôl allweddol fel rhan o ofal diwedd oes yn y cartref. Hwyl yw'r prif ofalwyr am gleifion lliniarol yn y cartref a hwythau'n trefnu ac yn cydlynu gofal diwedd oes gyda'r rhanddeiliaid cymorth lluosog gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys arbenigol gofal lliniarol, Macmillan, Nyrsys Marie Curie, gwasanaethau Hosbis yn y Cartref a chymorth gofal cartref. Maent yn arwain o ran cynnal asesiadau Cyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG, gan drefnu cyfarfod y tîm amlddisgyblaeth a sicrhau bod cyllid cleifion lliniarol yn cael ei brosesu ar hyd y llwybr carlam. Maent yn gallu gwneud hyn dros 24 awr o ofal saith niwrnod yr wythnos a 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn trwy gydlynu gofal ar draws a rhwng y rhanddeiliaid allweddol gan sicrhau clytwaith o ofal sy'n diwallu anghenion unigolyn. Maent yn trefnu ac yn sicrhau bod offer cymunedol yn cael eu darparu'n brydlon i alluogi rhywun i farw ag urddas gartref. Ond yn bwysicaf oll maent yn rhoi'r gofal o ddydd i ddydd gan sicrhau bod cleifion yn gysurus, yn ddi-boen, gan reoli symptomau a sicrhau bod eu teuluoedd yn cael cefnogaeth lawn drwy'r cyfan.

Diffiniad o dermau

Nyrs Gymunedol/Nyrsio Gymunedol – term torfol yw hwn am yr holl nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd sy'n gweithio mewn lleoliad cymunedol. Mae'n cynnwys yr holl nyrsys sy'n gweithio mewn gwasanaeth nyrsys ardal a'r holl nyrsys arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned, er enghraifft nyrsys cyflyrau hirdymor neu nyrsys sy'n gweithio mewn tîm eiddilwch arbenigol.

Nyrs Ardal – nyrs yw hon sydd wedi llwyddo i gwblhau hyfforddiant sydd wedi arwain at gofnodi Cymhwyster Ymarfer Arbenigol yn erbyn ei chofrestriad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Nyrsio Ardal – Hwn yw'r term torfol am dimau o nyrsys cymunedol (nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd) a arweinir yn glinigol gan Nyrs Ardal i roi'r gofal nyrsio-yn-y-cartref cyffredinol craidd mewn niferoedd uchel.

Cymwysterau Ymarfer Arbenigol (SPQ): Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cymeradwyo nifer o Gymwysterau Ymarfer Arbenigol cymunedol y mae nyrsys cofrestredig (a gofrestrwyd ar Ran 1 o'r gofrestr proffesiynol) yn gallu eu hennill trwy gwblhau addysg gymeradwy ar lefel gradd arbenigol ar ôl eu cofrestriad cychwynol. Y cymwysterau yw:

- Nyrs Ardal
- Nyrs mewn Meddygfa Deulu
- Nyrs Plant Gymunedol
- Nyrs Seiciatrig Gymunedol
- Nyrs Anableddau Dysgu Gymunedol

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynnal cofrestr mewn tair rhan: Rhan 1 – Nyrs, Rhan 2 – Bydwraig, Rhan 3 – Nyrs Iechyd y Cyhoedd Gymunedol Arbenigol (SCPHN). Mae mynediad at Ran 3 yn seiliedig ar fod naill ai'n nyrs gofrestrdig neu'n fydwraig gofrestrdig yn gyntaf.

Cymwysterau y meddir arnynt ar Ran 3:

- Ymwelydd Iechyd
- Nyrs Ysgol
- Nyrs Iechyd Galwedigaethol
- Nyrs Iechyd Teuluol (Yr Alban yn unig)

Ceir nifer fach o gymwysterau arbenigol eraill y gall staff cymunedol a gofal sylfaenol ddewis eu hennill hefyd:

- V100: Nyrs-ymarferydd cymunedol sy'n rhagnodi
- V150: Nyrs-ymarferydd cymunedol sy'n rhagnodi (heb SPQ neu SCPHN)
- V200: Nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol (llyfr fformiwlâu estynedig)
- V300: Nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol / atodol

Sylwer nad yw ymarfer uwch yn cael ei reoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yng Nghymru, caiff y gofynion ar gyfer ymarfer uwch eu nodi yn y 'Fframwaith ymarfer uwch ar gyfer nyrsio, bydweigiaeth, ac ymarfer proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru' (2010)

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/829/NLIAH%20Advanced%20Practice%20Framework.pdf>